

BYDDWCH BAROD EICH LLETYGARWCH

Nodyn i'r siaradwr:

Pwysleiswch sut gallwn fod yn lletygar a'r gwobrwyon am wneud felly. Dangoswch fel mae ysbryd lletygar yn adlewyrchu haelioni Jehofah

MAE ANGEN LLETYGARWCH HEDDIW (8 mun.)

Ystyr sylfaenol lletygarwch ydi: “Derbyn a rhoi llety i westeion neu ddieithriaid yn ddidwyll a hael”

Ystyr lythrennol y gair Groeg ydi “caru dieithriaid (eu hoffi, neu bod yn garedig wrthynt)” (*it-1* 1149)

Efallai ein bod yn teimlo'n anniddig yng nghwmni'r rhai nad ydym yn eu 'nabod. Ond “mae lletygarwch yn goresgyn y tyndra gan wneud cyfaiil o'r dieithryn” (*Theological Dictionary of the New Testament*)

Mewn llawer diwylliant dysgir lletygarwch fel rhinwedd o fabandod

Rhagfynegodd y Beibl y byddai'r nodwedd hon yn lleihau yn ein hoes ni (2Tim 3:1-5; Mth 24:12)

Yn anffodus, mae lletygarwch yn diflannu mewn llawer gwlad heddiw (*g78* 5/22 9-12)

Eto, gorchmynnir i Gristionogion, “byddwch yn barod eich lletygarwch” (Rhuf 12:13)

Gweithred ffydd ydyw, yn enwedig o'i gweithredu at gyd-gredinwyr (Gal 6:10; 3In 5)

Mae e'n angenrheidiol i henuriaid Cristionogol (1Tim 3:2; Tit 1:8)

Yn ôl y Beibl mae agwedd anlletygar yn adlewyrchu problem ysbrydol ac mae iddi berthynas â derbynioldeb ein haddoliad (Esea 58:6, 7; *it-1* 1150)

Mae gweithredoedd syml lletygar yn effeithio ar fywydau

Gwraig oedrannus: “Does gennyf ddim perthnasau o gwbl. . . . 'Rwy'n gofalu amdanaf fy hun heb help gan neb, a, coeliwch fi, lawer gwaith medrwn ei ddefnyddio. . . . Mae unrhyw sylw, pa mor fychan bynnag, yn fy nghyffwrdd yn fawr. Caiff ei werthfawrogi'n wylaidd” (*w79* 5/1 3; gweler hefyd *w88* 2/1 30)

Sut medrwn ni ddangos lletygarwch?

FEL MAE POBL DDUW WEDI EFELYCHU FFORDD LETYGAR DUW DRWY GYDOL HANES (15 mun.)

Mae Jehofah yn gosod patrwm drwy roddi llawer o fendithion i wŷr a gwragedd a darparu pethau da yn hael ar eu cyfer (1In 5:14, 15)

Mewn ffordd berffaith adlewyrchodd Iesu ffordd gariadus, lletygar Jehofah drwy ddangos diddordeb yn y tlawd; dangosodd haelioni drwy ddefnyddio'i alluoedd er lles eraill (Mth 14:14-21; gallwch grybwyll enghreifftiau eraill)

Er bod pobloedd eraill yn dangos lletygarwch, mae gweision Jehofah yn arbennig yn hyn o beth (*it-1* 1149-50)

'Roedd gofalu am deithwyr yn rhan hanfodol o fywyd yn Israel gynt

'Roeddyn' nhw'n croesawu gwesteion yn gynnes, a'u hannog i aros (Gen 18:2, 5-7; Barn 13:15)

Yn frwdfrydig redeg i'w cyfarfod (Gen 29:13, 14)

Darparodd gwraig o Sunem ar gyfer anghenion Eliseus tra 'roedd yn westai iddi (2Bren 4:8-11)

Er i amodau byw ac agweddau newid o'r hen gyfnod, 'roedd lletygarwch yn dal i fod yn rhywbeth cyffredin ymhlith Cristionogion y ganrif gyntaf

Anogwyd y disgyblion i dderbyn lletygarwch a gynigid gan y rhai oedd yn ymateb yn ffafriol i waith pregethu'r Deyrnas (Lc 9:3-6)

Dangoswyd lletygarwch i Iesu, nad oedd ganddo ei gartre' ei hun (Mth 8:20; Lc 10:38)

'Roedd Paul yn hyderus y byddai Philemon yn lletygar, gan mai dyma'i ddull e o fyw (Philem 21, 22)

Cymeradwywyd Gaius am estyn lletygarwch i frodyr teithiol (3In 5-8; *w88* 10/1 18-19)

Amlygwyd enghreifftiau lletygarwch nodedig gan y Cristionogion cynnar (Act 2:42-46; 16:15; *w86* 12/1 29)

CYFLEON I DDANGOS LLETYGARWCH HEDDIW (17 mun.)

Byddwch yn ymwybodol o anghenion materol ac ysbrydol cyd-gredinwyr (*w86* 1/15 21-3)

Gwnewch yr hyn sydd o fewn eich nerth a'ch gallu (Diar 3:27)

Peidiwch â dangos ffafriaeth at rai sy'n well eu byd (Lc 14:13, 14)

Cofiwch am y rhai llai ffodus—y tlawd, yr henoed, y swil, rhai ifanc

'Does dim angen darparu'n foethus

Cynghorodd Iesu Martha i roi sylw i'r rhan ysbrydol a pheidio â chael ei llygad-dynnu gan ddarpariaethau materol gorwch (Lc 10:38-42)

Pan fo rhyfel, trychinebau naturiol, erledigaeth, salwch, neu bryderon eraill yn achosi angen mawr ar gyd-Gristionogion, fel unigolion fe deimlwn awydd i helpu, yn darparu gwir gysur—nid dim ond geiriau diddanwch (Iago 2:15, 16; *w86* 10/15 15-21; *w91* 7/15 19; gallwch gyfeirio at brofiadau diweddar yn y *Yearbook*)

Byddwch yn lletygar wrth oruchwylwyr sy'n teithio neu'n ymweld (*w88* 10/1 18-19)

Anogodd Paul “agorwch chwithau eich calonnau yn llydan” i gyd-gredinwyr (2Cor 6:12, 13)

Osgowch gliciau, cymdeithasu dim ond gyda rhai arbennig

Treuliwch amser yn dod i 'nabod brodyr er mwyn bod yn ymwybodol o'u hanghenion nhw

Gweithiwch gyda rhai newydd yn y gwasanaeth maes; dysgwch nhw a'u hannog

Rhif 77 9/94

Gwahoddwch eraill i'ch cartrefi am bryd o fwyd, lluniaeth, peth cymdeithasu; gallwch rannu pethau ag eraill, darparu neu anfon anrhegion ar adegau (Act 16:15; Phil 4:15-17)

Mae cyfrifoldeb ar bawb i greu awyrgylch cynnes yn y gynulleidfa, a'r henuriaid yn arwain (1Tim 3:2; w86 10/15 16-18)

Mae'n beth ysgrythurol i roi ystyriaeth arbennig i'n brodyr (Gal 6:10)

Wrth ddysgu gwella'r nodwedd hon, dysgwch hefyd i dderbyn lletygarwch yn werthfawrogol

Gwerthfawrogai Paul anrhegion a roddwyd iddo, eto ni chymerodd fantais ar y brodyr (2Cor 11:7-9; w92 12/1 28-9)

Rhaid gwylio rhag simoniaeth, derbyn rhoddion yn gyfnewid am ffafrau (w86 8/15 15-16)

Yn unol â'r egwyddor a fynegir yn Salm 15:4b, 'ddylem ni ddim canslo gwahoddiad dim ond oherwydd cael cynnig gwell

Byddwch yn effro i anghenion y rhai nad ydynt o deulu'r ffydd

Gosododd Iesu batrwm o wahodd y disgyblion yn gariadus i'w 'ganlyn e' yn ei weinidogaeth (In 12:26) ac i unrhyw un ddod ato am orffwystra ysbrydol (Mth 11:28-30; w89 7/15 17-19)

Mae caru "dieithriaid" yn cynnwys ein cymdogion 'rydym yn pregethu iddynt

Mae parodrwydd i gyfarfod â "dieithryn" yn y gwaith o dŷ i dŷ yn ffurf ar fynegi'n lletygarwch

Fel Iesu, 'rydym yn eu gwahodd nhw i rannu bywyd o hapusrwydd, yn darparu ar gyfer eu hanghenion ysbrydol nhw, gan roi ein gofal a'n sylw iddyn' nhw

Mae helpu rhai newydd sy'n ymweld â Neuadd y Deyrnas i deimlo'n gartrefol, wrth eu cyfarch, yn fynegiant o'n gofal a'n sylw ni

Dyweddodd gwraig: "Fues i 'rioed mewn unrhyw gyfarfod crefyddol yn fy mywyd a themlo cymaint o groeso." Disgrifiodd y meddylgarwch a ddangosodd "dieithriaid llwyr" (*km* 3/78 4; neu enghreifftiau eraill sy'n dangos pwysigrwydd mynegi lletygarwch yn ein cyfarfodydd, megis w89 11/1 30; w88 6/1 6-7; gweler *Index* o dan "*Kingdom Halls*," is-bennawd "*experiences*")

"PEIDIWCH AG ANGHOFIO LLETYGARWCH" (5 mun.)

Mae bod yn lletygar yn dod â bendithion i bawb sydd â rhan ynddo (Diar 11:25)

Mae'r lletygarwch a estynnir gennym yn dibynnu ar pa mor gryf ydi'n cariad at eraill. "Bydded i frawdgarwch barhau" cynghorodd Paul, ac yna'n hatgoffa, "Peidiwch ag anghofio lletygarwch" (Heb 13:1, 2; w89 12/15 17)

Pwy a wŷr, efallai y byddwch yn rhoi llety i rywun y mae Jehofah yn ymhyfrydu ynddo

Fe ddylem ni fod yn lletygar oherwydd ein cariad dwfn at Jehofah a chyd-ddyn—yn dangos y nodwedd hon i bawb, yn pregethu i'n cymdogion, a gofalu'n arbennig am y rhai sydd o deulu'r ffydd

"Byddwch barod eich lletygarwch" (Rhuf 12:13)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)